# Digwyddiadau Rhestredig

Twrnamaint Rowndiau Terfynol Cwpan y Byd Merched FIFA 2023

**Ymgynghoriad:**

Dyddiad Cyhoeddi: 4 Gorffennaf 2023
Dyddiad Cau ar gyfer Ymatebion: 11 Gorffennaf 2023

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg 1

2. Twrnamaint Rowndiau Terfynol Cwpan y Byd Merched FIFA 2023 2

## Atodiad

A1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn 5

A2. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori 7

A3. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad 8

# 1. Trosolwg

### Beth rydym yn ymgynghori yn ei gylch

Mae Ofcom wedi cael ceisiadau gan y BBC ac ITV am ganiatâd i ddarlledu Twrnamaint Rowndiau Terfynol Cwpan y Byd Merched FIFA 2023 ("Cwpan y Byd Merched 2023") yn fyw ac yn ecsgliwsif. Bydd y twrnamaint yn cael ei gynnal yn Awstralia a Seland Newydd o ddydd Iau 20 Gorffennaf i ddydd Sul 20 Awst 2023.

Yn 2022, cafodd Twrnamaint Rowndiau Terfynol Cwpan y Byd Merched FIFA ei ddynodi'n ddigwyddiad rhestredig 'Grŵp A' gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon at ddibenion Deddf Darlledu 1996.[1]

Fel 'digwyddiad rhestredig', mae angen caniatâd Ofcom ar gyfer dangos darllediadau teledu byw ac ecsgliwsif.

Rydym yn ymgynghori am gyfnod byrrach na'r arfer. Mae hyn oherwydd oedi cyn caffael yr hawliau gan FIFA. Yn benodol, er y cyhoeddwyd ar 14 Mehefin bod FIFA, ITV, y BBC a'r Undeb Darlledu Ewropeaidd ("EBU") wedi dod i gytundeb a oedd yn galluogi'r BBC ac ITV i ddarlledu Cwpan y Byd Merched 2023, roedd y BBC ac ITV yn bwriadu aros nes bod y cytundebau terfynol wedi'u cwblhau cyn gwneud eu ceisiadau i Ofcom. Nid yw'r cytundebau yn derfynol eto, oherwydd yr oedi yn sgil natur amlbleidiol fwy cymhleth y trafodiad, ond mae'r BBC ac ITV bellach wedi gwneud eu ceisiadau i sicrhau bod gan Ofcom amser i gynnal yr ymgynghoriad hwn.

**Mae Ofcom yn bwriadu rhoi caniatâd dros dro, yn amodol ar ystyried unrhyw bryderon a godir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn.**

[1] Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 25 Ebrill 2022, 'Government adds women's international football tournaments to listed events regime'.

# 2. Twrnamaint Rowndiau Terfynol Cwpan y Byd Merched FIFA 2023

**Cefndir**

2.1 Mae Ofcom wedi cael ceisiadau gan y BBC ac ITV am ganiatâd i ddarlledu Cwpan y Byd Merched 2023 yn fyw ac yn ecsgliwsif.

2.2 Gan fod Twrnamaint Rowndiau Terfynol Cwpan y Byd Merched FIFA wedi'i ddynodi'n ddigwyddiad rhestredig,[2] mae angen caniatâd Ofcom ar gyfer darllediadau teledu byw ecsgliwsif.[3]

2.3 Rydym yn ymgynghori am gyfnod byrrach na'r arfer, oherwydd bod y ceisiadau wedi cael eu derbyn yn agos iawn at ddechrau'r twrnamaint.[4] Mae'r BBC ac ITV wedi egluro bod hyn oherwydd oedi cyn caffael yr hawliau gan FIFA. Fel y nodwyd yn helaeth ar y pryd, ym mis Mai 2023, nododd FIFA nad oedd yn fodlon â'r cynigion gan ddarlledwyr mewn pum marchnad fawr yn Ewrop. Ar 14 Mehefin, cyhoeddwyd bod FIFA, ITV, y BBC a'r Undeb Darlledu Ewropeaidd wedi dod i gytundeb a oedd yn galluogi'r BBC ac ITV i ddarlledu Cwpan y Byd Merched 2023. Fodd bynnag, roedd y BBC ac ITV yn bwriadu gohirio gwneud eu ceisiadau i Ofcom nes bod y cytundebau terfynol wedi'u cwblhau. Nid ydynt wedi'u cwblhau eto, oherwydd yr oedi yn sgil natur amlbleidiol fwy cymhleth y trafodiad, ond mae'r BBC ac ITV bellach wedi gwneud eu ceisiadau i alluogi Ofcom i gynnal yr ymgynghoriad hwn.

2.4 Mae Ofcom yn deall gan y BBC ac ITV nad oes disgwyl i'r oedi cyn cwblhau'r trafodiad newid natur y cytundeb yn sylweddol nac effeithio ar eu darpariaeth arfaethedig.

**Y ddarpariaeth arfaethedig**

2.5 Mae'r BBC ac ITV yn bwriadu rhannu darllediadau o'r twrnamaint, sy'n cynnwys 64 gêm, a rhannu gemau Lloegr, sy'n golygu y bydd pob darlledwr yn dangos hanner gemau Lloegr a hanner cyfanswm nifer y gemau ar draws y twrnamaint. Bydd y ddau ddarlledwr yn dangos y rownd derfynol.

2.6 Mae'r BBC yn bwriadu darlledu'r gêm agoriadol, ei gyfran o gemau Lloegr, y rownd gynderfynol a'r rownd derfynol yn fyw ar BBC One. Bydd gemau eraill yn cael eu darlledu'n bennaf ar BBC Two, gyda darpariaeth ychwanegol ar gael drwy'r Botwm Coch ac iPlayer. Mae'r BBC wedi dweud wrthym y gallai gynyddu nifer y gemau mae'n eu darlledu ar BBC One yn ystod y twrnamaint (ee oherwydd rhesymau amserlennu).

2.7 Felly, mae'r BBC yn gwneud cais am ganiatâd ar gyfer gwneud hyn.

---

[2] At ddibenion Deddf Darlledu 1996 ("y Ddeddf").
[3] Gweler adran 101 o'r Ddeddf.
Mae [4]Cod Ofcom ar Chwaraeon a Digwyddiadau Rhestredig a Dynodedig ("y Cod") yn nodi y dylid gwneud ceisiadau am ganiatâd Ofcom i ddarlledu digwyddiad rhestredig yn fyw ac yn ecsgliwsif o leiaf dri mis cyn y digwyddiad (gweler paragraff 1.29).

2.8 Nododd y BBC hefyd ei fod wedi cael yr hawliau i ddarlledu darllediadau sain byw a darllediadau sain wedi'u gohirio ar ei rwydwaith radio cenedlaethol.

2.9 Mae ITV yn bwriadu darparu darllediadau byw o'i gyfran o gemau Lloegr a'r rownd derfynol ar ITV1, gyda'r rhain hefyd yn cael eu darlledu ar draws rhwydwaith Channel 3, sy'n cynnwys STV. Bydd darpariaeth ychwanegol ar ITV4, er y bydd rhaniad y gemau rhwng y sianeli hyn yn dibynnu ar yr amserlen yn nes at yr amser.

2.10 Pan fydd ITV yn rhoi sylw i ddwy gêm ar yr un pryd, bydd y rhain yn cael eu darlledu ar ITV1 ac ITV4.

2.11 Felly, mae ITV yn gwneud cais am ganiatâd ar ran y trwyddedeion perthnasol ar gyfer y gwasanaethau hyn.[5]

**Caffael hawliau**

2.12 Mae Ofcom yn asesu ceisiadau am ganiatâd i ddangos darllediadau byw o ddigwyddiadau rhestredig ar y sail a nodir yn y Cod. Mae'n egluro y bydd Ofcom eisiau gweld bod darlledwyr wedi cael cyfle gwirioneddol i gaffael yr hawliau ar delerau teg a rhesymol.[6]

2.13 Lansiodd FIFA wahoddiad i dendro yn y DU ar gyfer gwerthu hawliau cyfryngau (gan gynnwys hawliau byw) i Gwpan y Byd Merched 2023 ar 9 Mehefin 2022, gan wahodd cwmnïau a sefydliadau cyfryngau sydd â diddordeb i wneud cais am y Gwahoddiad i Dendro a chyflwyno cynigion erbyn 12 Gorffennaf 2022.[7] Dywedodd y BBC ac ITV wrthym fod hwn yn gyfnod rhesymol i ddarpar gynigwyr baratoi a chyflwyno eu cynigion a bod yr hawliau byw yn cael eu cynnwys mewn pecyn rhesymol o hawliau cyfryngau.

2.14 Cynhaliwyd rhagor o drafodaethau o fis Mai 2023 ymlaen, ar ôl i FIFA nodi ei fod yn anfodlon â'r cynigion gan ddarlledwyr mewn pum marchnad fawr yn Ewrop. Ar 14 Mehefin 2023, cyhoeddwyd bod cytundeb wedi'i gytuno mewn egwyddor a oedd yn cynnwys y BBC ac ITV yn caffael hawliau cyfryngau'r DU ac yn rhan o gytundeb FIFA-EBU ehangach.

2.15 Er nad oedd y trafodaethau hyn yn dilyn y llwybr arferol, ar ôl asesu gwybodaeth a ddarparwyd gan y BBC ac ITV, ein barn dros dro yw bod darlledwyr wedi cael cyfle i gaffael yr hawliau ar delerau teg a rhesymol.

**Cynnig i roi caniatâd**

2.16 Mae Ofcom yn bwriadu rhoi caniatâd dros dro i'r BBC ac ITV (ac STV) ddangos darllediadau byw ecsgliwsif o Gwpan y Byd Merched 2023, yn amodol ar ystyried unrhyw bryderon sylweddol a godwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

2.17 Rydym wedi ystyried yr wybodaeth a roddwyd i ni gan y BBC ac ITV ar y sail na fydd casgliad terfynol y cytundebau'n effeithio'n sylweddol ar y fargen y cytunwyd arni mewn egwyddor na'r ddarpariaeth arfaethedig. Os bydd trefniadau'r hawliau'n newid yn

[5] Y trwyddedeion perthnasol ar gyfer rhwydwaith Channel 3 yw is-gwmnïau ITV ac STV.
[6] Gweler paragraffau 1.13-1.17 y Cod.
[7] FIFA launches tender process in UK for FIFA Women's World Cup 2023™ media rights

sylweddol ar ôl cyhoeddi'r ddogfen hon, byddwn yn ystyried yr effaith ar yr ymgynghoriad hwn.

2.18 Fel yr eglurwyd uchod, rydym wedi gorfod cwtogi'r cyfnod ymgynghori i **7 diwrnod** oherwydd bod y ceisiadau'n cael eu gwneud mor agos at ddechrau'r twrnamaint.

2.19 Mae Ofcom yn dymuno pwysleisio pa mor bwysig yw hi i ddarlledwyr gadw at yr amserlenni a nodir yn y Cod wrth ofyn am ganiatâd Ofcom i ddarlledu digwyddiad rhestredig yn fyw ac yn ecsgliwsif, sy'n nodi, lle bynnag y bo modd, y dylid gwneud ceisiadau o leiaf dri mis cyn y digwyddiad. Mae hyn yn galluogi Ofcom i ystyried y cais, gan gynnwys ymgynghori arno pan fo'n briodol er mwyn galluogi partïon sydd â diddordeb i gyflwyno sylwadau, ac i godi unrhyw faterion gyda'r darlledwyr.

2.20 Mae'r BBC ac ITV wedi cydnabod bod y ceisiadau hyn wedi cael eu gwneud ar ôl y cyfnod hwn ac mewn amgylchiadau cwbl anarferol. Rydym yn derbyn bod yr amgylchiadau wedi bod oherwydd ffactorau y tu hwnt i reolaeth y BBC ac ITV, a bod y darlledwyr wedi ymgysylltu'n adeiladol ag Ofcom i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am gynnydd y trafodaethau, fel y darperir yn y Cod.

2.21 Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i atgoffa darlledwyr bod y Cod yn nodi'n glir efallai na fydd Ofcom yn gallu ystyried ceisiadau sy'n dod i law yn agos at y dyddiad pan fydd digwyddiad yn cael ei gynnal, ac y gallai hyn olygu na ellir rhoi caniatâd. Dylai darlledwyr hefyd fod yn ymwybodol o ganlyniadau posibl darlledu digwyddiad rhestredig yn groes i adran 101 o Ddeddf Darlledu 1996.[8]

## Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

2.22 Os ydych yn dymuno cyflwyno unrhyw sylwadau am geisiadau'r BBC ac ITV am ganiatâd, dylech anfon y rhain i Ofcom, drwy e-bost at listedevents@ofcom.org.uk erbyn 5pm ar 11 Gorffennaf 2023 fan bellaf. Mae rhagor o fanylion am ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar gael yn yr atodiadau.

[8] Gweler adrannau 102 a 103 y Ddeddf.

# A1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A1.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 11 Gorffennaf 2023.

A1.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr yn: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/file/0028/263728/Ffurflen-ymateb-i-ymgynghoriad.odt. Gallwch ei dychwelyd drwy e-bost.

A1.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol arall, a fyddech chi cystal â'i anfon dros e-bost i listedevents@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno.

A1.4 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- Anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara mwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau QuickTime, wmv neu DVD. Neu
- Gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle cynnal arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A1.5 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol)

A1.6 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig.

A1.7 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i chi egluro eich safbwyntiau a'r rhesymau drostynt, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith penderfyniad arfaethedig Ofcom. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A1.8 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â'r Tîm Trwyddedau Darlledu drwy anfon neges e-bost i listedevents@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A1.9 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar wefan Ofcom cyn gynted ag y byddant yn dod i law.

A1.10 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu'ch ymateb.

A1.11 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A1.12 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A1.13 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ei benderfyniad ynghylch caniatâd ar gyfer Cwpan y Byd Merched 2023 ar 17 Gorffennaf 2023.

A1.14 Gallwch gofrestru i gael diweddariadau i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A1.15 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 2.

A1.16 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydym yn rheoli ein hymgynghoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A1.17 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Ysgrifennydd y Gorfforaeth
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A2. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori

## Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

### Cyn yr ymgynghoriad

A2.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda phobl a chyrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr er mwyn cael syniad a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

### Yn ystod yr ymgynghoriad

A2.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A2.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda chrynodeb o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn gymhleth, efallai y byddwn yn darparu canllaw Cymraeg Clir / Plain English i helpu sefydliadau llai neu unigolion na fyddent yn gallu rhoi o'u hamser i rannu eu barn fel arall.

A2.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A2.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosibl yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif unigolyn y dylid cysylltu ag ef os oes gennych farn am y modd rydym yn cynnal ein hymgynghoriadau.

A2.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

### Ar ôl yr ymgynghoriad

A2.7 Rydym yn credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan cyn gynted ag y byddant yn dod i law. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

# A3. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb sydd yn eich barn chi yn gyfrinachol, gan roi'ch rhesymau am hynny

Dim ☐

Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐

Ymateb cyfan ☐

Sefydliad ☐

Rhan o'r ymateb ☐

Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? ____________________

____________________

Os nad ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu enw eich sefydliad gael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom barhau i gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol nad yw'n datgelu'r wybodaeth benodol nac yn golygu bod modd eich adnabod)?

## DATGANIAD

Rwyf yn cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni dyletswyddau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt ddod i law. Os yw'ch ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma. ☐

Enw Llofnod (os darperir copi caled)